# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2015** |
| Amser: | **09.47 - 10.28** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/a1676157-435d-4347-a167-175a54544e91?autostart=True

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

**2.1 P-04-640 Gostwng yr Oedran ar gyfer Profion Ceg y Groth i 18**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at bwyllgor sgrinio cenedlaethol y DU yn gofyn am fanylion yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar a lywiodd benderfyniad y Gweinidog i gynyddu'r oedran;
- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ystadegau ynghylch sut y disgwylir i'r rhaglen frechu HPV ostwng nifer y cleifion sy'n dioddef o ganser yn y 10 mlynedd nesaf; a
- gofyn am sylwadau gan y deisebydd i ymateb y Gweinidog.

### 2.2P-04-643 Diogelu Dechrau'n Deg yng Nghroeserw

### 2.3P-04-645 Achub Dechrau'n Deg Glyncorrwg

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn:
  - am ymateb i sylwadau Gweithredu dros Blant a'r deisebydd;
  - sut y caiff yr arian a roddir i awdurdodau lleol ei gyfrifo;
  - pa asesiad y mae wedi'i wneud yn ddiweddar ynghylch a yw'r cyllid yn ddigon i dalu'r costau;
- ysgrifennu at Gweithredu dros Blant i ofyn faint yn rhagor o gyllid fyddai ei angen arnynt i allu parhau â'r ddarpariaeth ar y lefel bresennol;
- ysgrifennu at Gyngor Castell-nedd Port Talbot i ofyn:
  - a fydd darpariaeth newydd ar gael erbyn mis Medi;
  - a oes sail i bryderon y deisebwyr y gallai fod bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth;
  - pam na roddwyd darpariaeth amgen yn ei lle yn gynharach o ystyried maint y rhybudd a roddwyd gan Gweithredu dros Blant.

Cafwyd datganiad o fuddiant gan Bethan Jenkins.

### 2.4P-04-644 Dyfodol Addysg Bellach

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl a bydd yn cael ei hystyried yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 3.1 P-04-552 Diogelu Plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn am nodyn cyfreithiol yng ngoleuni barn y Gweinidog bod y mater heb ei ddatganoli ac nad yw'n rhan o'i bwerau na'i gylch gwaith; a than hynny
- aros am farn y deisebwyr ynghylch gohebiaeth y Gweinidog.

## 3.2 P-04-589 Lleihau Nifer y Cynghorwyr ac Aelodau Gweithredol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

## 3.3 P-04-602 Personoleiddio Beddau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

## 3.4 P-04-616 Rhaid Atal Gwerthu Tân Gwyllt i'r Cyhoedd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb oni cheir ymateb gan y deisebydd cyn pen chwe wythnos.

## 3.5 P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am sylwadau pellach gan y deisebydd; ac
- ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel yr awgrymodd y Gweinidog, yn gofyn am eglurhad pellach am y cyllid y byddai angen iddo ei gael i ddarparu triniaethau gyda chymorth robotig yng Ngogledd Cymru.

## 3.6 P-04-588 Siarter ar gyfer Plant a Thadau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog:
  - i groesawu ei ymgysylltiad â'r deisebwyr;
  - i groesawu'r camau a gymerwyd i sicrhau bod CAFCASS yn cofnodi manylion am ryw'r rhieni;
  - i ofyn ei farn am sylwadau'r deisebydd.  Yn benodol:

    - pam nad yw'n CAFCASS yn Lloegr yn teimlo bod cyhoeddi offeryn asesu CAWAC yn achosi problemau yn y ffordd a awgrymwyd gan CAFCASS yng Nghymru; ac
    - a ellir ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gofnodi gwybodaeth am y rhywiau.
- Gofyn i'r deisebwyr ymhelaethu am y rheswm dros eu pryder ynghylch y defnydd o'r offeryn CAWAC.

### 3.7P-04-577 Adfer Cyllid i'r Prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd, o ystyried pryderon y deisebydd, i:

- ysgrifennu'n uniongyrchol at WEFO yn gofyn am ymateb i'r pwyntiau a wnaed; ac
- anfon copi o'r llythyr at y Gweinidog.

### 3.8P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Plant yng Nghymru i ofyn iddynt ymateb i bryderon penodol y deisebwyr, yn enwedig o ran lleoliad cyfarfodydd.

### 3.9P-04-573 Galwad ar Lywodraeth Cymru i Ymchwilio i'r System Lesddaliadau Preswyl yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.10 P-04-538 Cynnwys darlithwyr i sicrhau Fframwaith Arolygu Addysg Bellach sy'n addas at y diben

Cytunodd y pwyllgor i gau'r ddeiseb.

### 3.11 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael y wybodaeth ddiweddaraf a addawodd y Gweinidog.

### 3.12 P-04-373 Parthau Gwaharddedig o Amgylch Ysgolion ar gyfer Faniau Symudol sy'n Gwerthu Bwyd Poeth

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd fel yr awgrymwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan gynnwys a ellid mynd i'r afael â'r mater hwn yn y Bil Iechyd y Cyhoedd; a
- Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gael ei barn.

**3.13 P-04-514 Dylid adeiladu gorsaf bŵer sy'n defnyddio glo glân o Gymru a/neu gorsaf ynni adnewyddadwy yn hytrach na gorsaf niwclear arfaethedig Wylfa B ar Ynys Môn**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

**Caiff y ddeiseb uchod ei thrafod eto yn y cyfarfod ar 14 Gorffennaf. Y rheswm am hyn yw bod darn o ohebiaeth wedi dod i law na thynnwyd sylw'r Pwyllgor ato cyn iddo benderfynu cau'r ddeiseb.**